**Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 10 Rhagfyr 2025 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)
- Taryn Stephens (Llywodraeth Cymru)

**Eitemau ar yr agenda a chrynodeb manwl**

---

**1. Croeso ac ymddiheuriadau:** Dechreuodd y cyfarfod gyda chyfarchion, a chafodd presenoldeb ei gadarnhau.

**2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau:** Bu'r Bwrdd yn trafod y broses flynyddol a pharhaus ar gyfer datgan gwrthdaro o ran buddiannau. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau, a chytunwyd i ffurfioli'r protocol a'i rannu â Llywodraeth Cymru.

**3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:** Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hailddosbarthu, a gwnaed cais i hysbysu'r ysgrifenyddiaeth bod y cofnodion wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol eu trafod a'u cydnabod.

**Adborth a chamau dilynol wedi'r gynhadledd:**

Nododd y Bwrdd yr adborth cadarnhaol a gafwyd wedi'r gynhadledd, a thynnodd sylw at lwyddiant y gynhadledd o safbwynt dod ag amryw randdeiliaid ynghyd a hybu trafodaeth werthfawr. Cytunodd aelodau'r Bwrdd i ddiweddaru'r wefan â negeseuon allweddol y prif siaradwyr a'r prif themâu er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol am y canlyniadau. Pwysleisiwyd yr angen i gynnal momentwm o ran "profiad go iawn" er mwyn sbarduno gwelliannau parhaus. Bydd digwyddiad bord gron dilynol yn canolbwyntio ar ddefnyddio data ac integreiddio profiad go iawn mewn gwaith yn y dyfodol.

At hynny, bu'r Bwrdd yn trafod creu canolfan wybodaeth er mwyn rhannu arfer gorau ledled Cymru.

---

## 4. Diweddariad ynghylch recriwtio a phenodi aelodau'r Bwrdd

Cafwyd gwybod bod ceisiadau wedi dod i law ac y byddai'r broses o ddidoli'r ceisiadau, llunio rhestr fer a chyfweld pobl yn digwydd ym mis Ionawr 2026.

---

## 5. Cyfathrebu a'r wefan

Roedd y contract yn cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu newydd er mwyn gwella ymgysylltu a rhannu gwybodaeth, gyda chymorth contractwr allanol er mwyn cael arbenigedd. Yn y cyfarfod bu'r Bwrdd yn trafod opsiynau o ran cael darparwr newydd ar gyfer y wefan, gan ganolbwyntio ar y gost ac ar alinio adnoddau, oherwydd bod y contract presennol yn dod i ben ym mis Mawrth. Rhoddodd y Bwrdd flaenoriaeth i sicrhau bod y wefan yn fwy rhyngweithiol, ei bod yn haws ei defnyddio, a'i bod yn fwy hygyrch i bob defnyddiwr. Cafodd cyfyngiadau cyllidebol eu cydnabod, a chytunwyd ar ddull strategol o gyfathrebu ac o ddatblygu'r wefan er mwyn cynnal effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

---

## 6. Adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant

Cafodd diweddariadau ynghylch cynnydd eu rhannu am yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr. Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd clywed llais y plentyn a deall profiadau go iawn, a phwysigrwydd diogelu trosiannol. Caiff y materion hynny eu hystyried yng nghynllun gwaith y flwyddyn nesaf.

---

**7. Adroddiad Blynyddol**

Bu'r Bwrdd yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol ac yn ei olygu ymhellach, a gofynnodd am i'r fersiwn hwnnw gael ei anfon at y Cadeirydd er mwyn iddo gael ei wirio am y tro olaf. Cytunodd y Bwrdd fod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchiad cywir ohono.

**8. Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru**

Bu'r Bwrdd yn trafod adroddiad diweddar Gogledd Cymru ynghylch diogelu, sef yr Adolygiad Ymarfer Plant "Cyfiawnder trwy ein Dewrder", gan nodi themâu, trothwyon sy'n amrywio, a phwysigrwydd diwylliant sefydliadol. Parheir i ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ynghyd â'i effaith.

**9. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch ymateb y llywodraeth i'r Adolygiad Ymarfer Plant "Cyfiawnder trwy ein Dewrder". Bu'n trafod yr adolygiad sydd ar y gweill o drefniadau llywodraethiant, y modd y mae'n cael ei roi ar waith yn raddol, a chynlluniau i gryfhau strwythurau diogelu, a fyddai'n cynnig cyfleoedd i gynnwys y Bwrdd a chael diweddariadau gan y Gweinidog.

Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru o blaid cynnal cyllideb y Bwrdd, ond mae'n dal i ddisgwyl am gymeradwyaeth derfynol.

**10. Diweddariad ynghylch y gyllideb**

Bu'r Bwrdd yn adolygu materion ariannol y sefydliad, a chanfu fod disgwyl iddo fod mewn sefyllfa eleni lle na wnaeth orwario na thanwario, diolch i reolaeth ariannol ofalus. Bu'r Bwrdd yn ystyried costau parhaus a chostau yr eir iddynt unwaith yn unig, yn enwedig ar gyfer prosiectau'n ymwneud â'r wefan a chyfathrebu, a sicrhaodd fod yr holl gostau wedi'u cynnwys yn y gyllideb. Bydd y Bwrdd yn mynd ati'n awr i adolygu llinellau gwariant unigol er mwyn dod o hyd i arbedion a pharatoi ar gyfer pwysau posibl ar y gyllideb y flwyddyn nesaf.

**8. Diweddariadau rhanbarthol a chenedlaethol**

Cafodd diweddariadau eu darparu gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd diweddar, digwyddiadau hyfforddiant, ac adolygiadau thematig.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd hyfforddiant amlasiantaeth ac at yr heriau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithlu.

Gofynnwyd am ddiweddariadau ynghylch gweithredu system atgyfeirio genedlaethol.

---

**11. Unrhyw fater arall**

- Cadarnhaodd y Bwrdd y camau nesaf ar gyfer cwblhau a chyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol.
- Cafodd trefniadau ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod a sesiynau datblygu eu trafod.
- Gorffennwyd y cyfarfod drwy ddymuno’n dda i bawb dros yr ŵyl.

---

**Daeth y cyfarfod i ben am 16:45.**